ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 3 Cyfrol 13 Gorffennaf 2016

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

Ymweliad â Byd Mary Jones

ADRODDIAD A LLUNIAU AR DUDALEN 13 AC 14

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Awst 7	*Undebol Penuel*
Awst 14	Parch. Brian Wright
Awst 21	*Undebol Pendref*
Awst 28	*Undebol Penuel*
Medi 4	Gweinidog
Medi 11	Parch. Iwan Llewelyn Jones
Medi 18	Gweinidog
Medi 25	*Undebol hwyr*

Hydref 2	Diolchgarwch y Plant – Gweinidog
Hydref 9	Parch. Cledwyn Williams
Hydref 16	Parch. Glyn Tudwal Jones
Hydref 23	Gweinidog
Hydref 30	Parch. Eric Jones

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Awst 14	Gareth Emlyn Jones
Medi 4 ac 11	Eirian Howells
Medi 18 a 25	Alwyn Lloyd Ellis
Hydref 2 a 9	Robat Roberts
Hydref 16 a 23	John Wynn Jones
Hydref 30 a Tachwedd 6	Gwyn Jones

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Awst 14	Delyth Oswy Shaw
Medi 4	Menna Baines
Medi 11 a 18	Elizabeth Roberts
Medi 25 a Hydref 2	Gareth Emlyn Jones
Hydref 9 a 16	Elwyn Lloyd Jones
Hydref 23 a 30	John Griffiths
Tachwedd 6 a 13	Arwyn Evans

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Gorffennaf 31	Lynn Jones
Awst 7	*Penuel U*
Awst 14	Sarah Buchann *U*
Awst 21	*Pendref U*
Awst 28	*Penuel U*
Medi 4	Enid Pritchard
Medi 11	Liz Roberts
Medi 18	Caren Lewis
Medi 25	Lis Jones
Hydref 2	Gwawr Jones
Hydref 9	Helen Morris
Hydref 16	Delyth Williams
Hydref 23	Morwenna Edwards
Hydref 30	Griff Jones
Tachwedd 6	Sara Tudor

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Braf yw cael eich cyfarch unwaith eto ar dudalennau *Ichthus*, a diolch am eich amynedd yn ystod y misoedd diwethaf a minnau wedi bod gymaint i ffwrdd o'r ofalaeth. Bellach mae fy nghyfnod fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol wedi dod i ben, er y bydd gennyf rai dyletswyddau i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf hon hefyd. Diolch i bawb a ddaeth i'r oedfa yn Llandudno pryd y bu i mi drosglwyddo'r llywyddiaeth i'r Athro John Gwynfor Jones, Caerdydd, a thraddodi araith ymadawol y llywydd. Fel y dywedais y noson honno, y mae fy nyled yn fawr i aelodau Gofalaeth Bangor a'r Cyffiniau, ac i'r Parchedig Eric Jones a gyflawnodd rai o'm dyletswyddau pan na allwn i fod yn bresennol. Fy ngobaith rŵan yw y caf fwy o hamdden i ymweld a bugeilio, ac edrychaf ymlaen at gyfarfod mwy ohonoch ar eich aelwydydd.

Bu'r wythnosau diwethaf yn llawn cyffro gyda thîm Cymru yn disgleirio ym mhencampwriaethau pêl droed Ewrop, ac Andy Murray yn ennill Wimbledon. Adlewyrchwyd cynnwrf y byd chwaraeon yn Oedfa Pen Tymor yr ysgol Sul ar 3 Gorff a hoffwn ddiolch i'r plant a'u teuluoedd a'r athrawon am oedfa fendithiol ac am eu gwaith ar hyd y flwyddyn. Llongyfarchiadau hefyd i bawb o'r eglwys sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiadau, a dymuniadau da os ydych ar fin cychwyn ar gyfnod newydd mewn gwaith neu goleg, neu ar fin newid ysgol neu ddosbarth, neu'n disgwyl canlyniadau. Hyderaf y cewch oll haf hapus.

Yn y byd gwleidyddol gwelwyd newidiadau syfrdanol yn ddiweddar. Pleidleisiodd Prydain i adael y Gymuned Ewropeaidd a chawsom brif weinidog newydd dros nos wrth i Mrs Theresa May gael rhwydd hynt i arwain y Blaid Dorïaidd yn lle Mr David Cameron. Yn dilyn ymgyrch refferendwm a fu'n aml yn ddigon chwerw, daeth agweddau hiliol i'r amlwg yn ein cymdeithas, a galwodd yr eglwysi yn ddieithriad am oddefgarwch, pwyll ac agwedd gynhwysol a thrugarog tuag at ffoaduriaid. Dyma weddi a gyhoeddodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dilyn y refferendwm, ac o glywed heddiw am gyflafan arall yn Ffrainc wrth i derfysgwr ladd dros bedwar ugain o bobl yn Nice, diau fod yna fwy o angen nag erioed inni bwysleisio'r neges Gristnogol am heddwch a chymod.

GWEDDI:

Arglwydd nef a daear, gwnaethost o un gwaed yr holl genhedloedd i breswylio ar wyneb y ddaear. Ceisiwn Di, Graig yr Oesoedd, ar yr adeg ansicr yma, gan ymddiried ein dyfodol i'th ofal. Cyffeswn fod ein hundeb yn yr Arglwydd Iesu Grist, a gofynnwn yn ostyngedig am dy gymorth i genhedloedd y Deyrnas Unedig i gyd weithio â chenhedloedd eraill Ewrop

a'r byd o blaid cyfiawnder a heddwch. Boed inni weld y gofyn sy'n ein hymyl, a thrugarhau ac estyn llaw at bawb sydd mewn angen, gan frwydro gyda'n gilydd yn erbyn pob atgasedd ac annhegwch. Gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda ni oll.

Amen

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael neu'n llesg, a'r teuluoedd hynny a gafodd brofedigaeth yn ystod y misoedd diwethaf ac sydd mewn galar a hiraeth. Boed i Ysbryd Duw eich bugeilio, a rhoi i bawb ohonom ei dangnefedd.

RHEDEG AT ACHOS DA

Ddiwedd Mai bu Nia (sy'n un o'n hathrawon ysgol Sul) a Dafydd Gwynn, 30 Bryn Adda, yn rhedeg 26.2 milltir ar hyd strydoedd Lerpwl i godi arian i elusen Tîm Irfon. Mae'r achos yn agos iawn at galonnau'r ddau a hwythau'n ffrindiau da gyda'r sylfaenydd Irfon Williams, ac wedi gweld pa mor ddewr mae wedi bod yn brwydro yn erbyn ei salwch ei hun tra mae'n parhau i helpu cleifion canser eraill. Cafodd Nia wybod wythnos cyn marathon Lerpwl fod ei thad hefyd yn diodde' o ganser. Mae'r Dr Norman Jones, Llandegfan, newydd ddechrau ar ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae Nia a Dafydd yn falch iawn o fod wedi gallu cefnogi achos mor bwysig ac yn diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael. Maen nhw wedi codi £1,800 hyd yma ond dydy hi ddim yn rhy hwyr.

Gall rhywun gyfrannu trwy law neu fynd i *www.justgiving.com/Nia-Daf.*

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

GWENNO PRITCHARD



Dydd Llun, Mai 16eg, a hithau'n ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol, cynhaliwyd y Cinio Bara Caws ym Merea Newydd,yn ôl yr arfer. Roedd y gwasanaeth dechreuol yng ngofal y Parch. Eric Jones, yn absenoldeb y gweinidog, y Parch. Elwyn Richards. Cymerwyd rhan gan aelodau o Eglwysi Cytûn, Bangor, a chafwyd anerchiad gan Anna Jane Evans, o Gymorth Cristnogol. Eleni, fe fydd yr arian a gasglwyd yn mynd i wlad Bangladesh, er mwyn cynorthwyo'r trigolion i allu codi eu cartrefi i dir uwch, yn glir o'r bygythiad gan lifogydd cryfion a fyddai'n eu dinistrio. Cafwyd sleidiau yn darlunio'r sefyllfa drychinebus yma. Yna fe aeth pawb at y byrddau. Daeth nifer dda ynghyd, a chasglwyd £534, tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo, ac yn cefnogi.

Yn ystod yr wythnos oedd yn ddilynol, cafwyd mwy o weithgareddau codi arian, yn cynnwys gerddi agored, bore coffi, noson gwis, a chasgliadau arbennig gan rai o eglwysi Cytûn, Bangor. Dydd Gwener Mai 20fed, gwnaed casgliad ar y stryd, a chasglwyd £358.29.

Yr ymgyrch fwyaf yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol oedd y casgliadau o dŷ i dŷ. Yr oedd Berea Newydd yn casglu ar yr ochr orllewinol o'r ddinas, ac fe gasglwyd £1,200. Teimlai'r trefnwyr fod hyn yn dda iawn.

Drwy'r ddinas i gyd yr oedd 75 o gasglwyr yn cynrychioli 11 o eglwysi Cytûn, Bangor, ond fe fyddai'r trefnwyr yn falch o gael mwy i wirfoddoli'r flwyddyn nesaf.

Cyfanswm yr arian a gasglwyd oedd £4197.11.

Cyfanswm y casgliadau o dŷ i dŷ, a'r gweithgareddau codi arian, oedd £6675.06, £100 yn uwch na'r llynedd.

Mae trefnwyr Cymorth Cristnogol yn yr eglwysi yn ddiolchgar iawn i'r rhai a gytunodd i gasglu o dŷ i dŷ, a'r rhai a gefnogodd y gweithgareddau codi arian.

CYW LENORION BEREA

Fe gafodd amryw o aelodau'r Ysgol Sul Iwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd draw yn Y Fflint. Roedd nifer o'r plant yn cymryd rhan yng Nghyflwyniad Dramatig Ysgol y Garnedd, ac mae'n ymddangos hefyd fod yna ddoniau creadigol yn eu plith. Enillodd Llio Eurgain y tlws am ryddiaith i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6, ac ychydig wythnosau wedyn enillwyd cadair Ysgol y Garnedd gan Anwen Edwards, gyda Meilyr Lynch yn ail. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt – rydym fel capel yn falch o'u llwyddiant. Yn wir, profiad a gafodd ym Merea Newydd a ysgogodd Llio Eurgain i ysgrifennu ei gwaith buddugol. Sgwrs Anna Jane Evans o Gymorth Cristnogol am y ffoaduriaid yn Syria a'i sbardunodd i chwilio am fwy o wybodaeth ar wefan yr elusen a mynd ati i sgwennu wedyn. Mae'n bleser cael cyhoeddi gwaith Llio yn y rhifyn hwn o *Ichthus*.

AR BEN FY NIGON

LLIO EURGAIN

Mae'r gwynt yn rhuo ac yn ysgwyd waliau simsan ein cartref-un-ystafell. Rydym ni'r plant, y pump ohonom, yn swatio ar fatres ac yn tynnu'r flanced yn dynn amdanom. Fi Sami ydy'r brawd hynaf ond un, a fi yn anffodus sydd ar y pen oeraf, yr un agosaf at y wal ddrafftiog. Rwy'n gweld gwallt tywyll, cyrliog fy mrawd mawr Hamza ar y pen arall yn syllu ar y to. Yn y canol mae'r tri lleiaf, fy chwaer Nasrin a'i braich yn gwasgu am fy nghanol, Farhad fy mrawd ieuengaf a Jaylan fach sy'n naw mis oed.

Does dim siw na miw gan yr un ohonon ni. Dim ond anadlu rheolaidd Jaylan wrth iddi gysgu'n drwm, a'i

Llio Eurgain gyda'r tlws a enillodd yn Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint

chorff bach yn codi a gostwng, codi a gostwng. Braf arni hi'n gallu cysgu. Does gen i na'r lleill ddim gobaith gallu cysgu winc heno. Mae twrw pob taran yn gwneud i Farhad druan neidio o'i groen. Gas gen i ei weld o'n gwingo fel hyn. Fo sy'n dioddef fwyaf. 'Dydy o ddim wedi dweud gair ers misoedd. Dydy o'n gwneud dim ond edrych yn drist a'i ddau lygad brown yn fawr gan ofn. Dw i bron â marw isio i'r storm 'ma orffen.

Yn araf bach, rydw i'n gwthio fy llaw o dan y fatres ac yn chwilio'n ofalus. I'r dde, dim byd, i'r chwith a dyma fo yn oer a llyfn. Rydw i'n troi mhen fymryn i sbecian ar y llun wnes i flwyddyn yn ôl. Teulu o chwech yn sefyll ar falconi. Dacw Dad yn sgwario'n falch wrth ymyl mam a'i bol babi. Ninnau'r plant wedi'n gosod yn daclus yn ôl oed a thaldra. Hamza tair ar ddeg oed, finnau'n ddeg, Nasrin wyth oed a Farhad yn bedair ar y pryd ac yn wên o glust i glust. Yn y cefndir, tai lliw tywod yn swatio yng nghesail y graig, a tho arian hanner sffêr eglwys yn sgleinio yn yr haul. Yr adeg honno, roeddwn ar ben fy nigon a bywyd yn un breuddwyd hir a hapus.

* * *

Hunllef ydy fy mywyd erbyn hyn. Rydw i'n cofio sibrwd llawn panig fy rhieni wrth i ni bacio ar ras wyllt.

'Dim teganau. Dillad, blancedi a bwyd sy'n bwysig rŵan....'

Dianc liw nos a'r tywyllwch yn cau amdanom ac yn ein cuddio. Chwech o gysgodion law yn llaw wrth i ni ddianc drwy'r dref. Llwch yn brifo'n llygaid ac arogl mwg yn llosgi'n trwynau. Baglu ein ffordd dros frics, blociau concrid, gweddillion cartrefi, ysgolion, eglwysi a siopau. Cerdded a cherdded nes bod ein coesau'n blwm a'n traed yn brifo'n ofnadwy.

Dwylo caled y milwyr yn symud i fyny ac i lawr ein cyrff wrth i ni gyrraedd Checkpoint ar ôl Checkpoint. Fy nghalon yn curo fel gordd. Ochenaid o ryddhad o gael pasio drwodd. Dyddiau'n troi'n wythnosau a'r un hen drefn ddiflas bob dydd. Cuddio a chysgu yng ngolau'r haul a cherdded yng ngolau'r lleuad.

Fesul tipyn, daeth degau ar ddegau o bobl i ymuno ar ein taith. Gorymdaith drist ac ofnus o deuluoedd distaw. Bywydau pawb wedi eu gwasgu i fwndeli bach ysgafn. O'r diwedd, cyrraedd ffin Lebanon. Wythnosau eto o gerdded cyn i waliau llwyd gwersyll ffoaduriaid Shatila ein croesawu. Miloedd ar filoedd o bobl fel morgrug ym mhob man. Fflatiau mor agos nes eich bod yn gallu cynnal sgwrs efo'ch cymdogion heb godi llais. Fama yn Shatila gafodd Jaylan fach ei geni. Mae hi'n dal i gysgu'n esmwyth a'r storm yn poeni dim arni. Chlywodd hi ddim y bomiau'n ffrwydro na'r gynnau'n tanio.

Rydw i'n plygu'r llun yn dwt a'i osod yn ei ôl yn ofalus o dan y fatres. Bydd o yno'n ddiogel tan y tro nesaf y bydd storm yn rhuo a mellt yn goleuo'r awyr. Llun i'm hatgoffa pa mor braf oedd bywyd cyn y rhyfel. Y dyddiau da pan oeddwn i adref yn Syria ac ar ben fy nigon.

CADAIR CATRIN

RHAGOR O LENORION BEREA
Catrin Edwards, enillydd Cadair Ysgol y Garnedd eleni, gyda Meilyr Lynch, ddaeth yn ail, wrth ei hymyl. Yn y llun hefyd gwelir Matilda Boyle (3ydd) a Morgan Goulding (4ydd). Ysgrifennodd Catrin am brofiadau rhyfedd criw o ffrindiau yng Nglan-llyn ac ymweliad â Chastell Caernarfon oedd cefndir stori arswyd Meilyr.

‘AR DRYWYDD DEWI SANT’

ADOLYGIAD BRUCE GRIFFITHS
O LYFR GERALD MORGAN

Bob blwyddyn byddwn ni yng nghinio pentymor Cymdeithas Berea, yn dathlu gŵyl ein nawddsant. Hynny, er na fyddwn yn coffau unrhyw sant arall trwy’r flwyddyn, nid hyd yn oed y santes Fair, mam Iesu. Yn wir, soniwn yn amlach am Ann Griffiths. Sut felly? Bûm sawl tro mewn cinio o’r fath, a chlywed dweud ‘na wyddom ni fawr ddim am Ddewi’. O hyn ymlaen ni fydd esgus dros ddweud hynny: darllenwch lyfr hynod ddifyr Gerald Morgan. Y fath chwilota a fu! Bu farw Dewi tua’r flwyddyn 589, ond aeth pum can mlynedd heibio cyn ysgrifennu *Buchedd Dewi* gan Rygyfarch, a dywed Gerald mai ofer braidd fu disgwyl cael ffeithiau ynddo: traddodiadau a geid, rhai’n anodd eu coelio: ai gwir i Ddewi farw’n 147 mlwydd oed? ‘Dyfrwr’ oedd llysenw Dewi, a yfai ddŵr ac a fwytâi lysiau, nid cig. Felly bu sawl un ohonom yn anniddig braidd mewn ambell loddest Gŵyl Ddewi lle ceid gwin a chigoedd breision. Ond na phoener: yn ôl y *Fuchedd*, fe ofynnodd Dewi am ffynnon yng Nglyn Hodnant, ‘ac yn oes Dewi ... bu y ffynnon honno yn llawn o win, fel na bu arno ef yn ei oes ef eisiau (= diffyg) gwin da’! Trafodir y gred mai Cardi ydoedd, yn hytrach na gŵr o Benfro. Atgoffir ni na fyddai ‘Cymru’ wedi golygu dim i’r sant: rhan yn unig ydoedd hi o gadwyn o diroedd Brythonig eu hiaith, o Gernyw i Ystrad Clud yn yr hen Ogledd. Ei ‘famwlad ‘ ef oedd gwledydd cred,



Cristnogaeth Rufeinig. Ni chyhoeddwyd mohono'n sant yn ffurfiol gan unrhyw Bab. Wedi i'r Normaniaid gyrraedd De Cymru, yn oes Rhygyfarch, daeth enw a hanes gwyrthiau a chenhadaeth Dewi'n arfau hollbwysig yn y frwydr dros annibyniaeth esgobaeth Tyddewi. Dengys Gerald y câi Dewi sylw arbennig iawn yn archesgobaeth Caergaint, yn yr Alban ac yn Iwerddon, lle ystyrid ef yn 'archesgob Prydain'. Ceir eto eglwysi a gysegrwyd iddo yn Henffordd, Cernyw a Chaerwysg ac yn Llydaw - ond nid yng Ngogledd Cymru, hyd yn ddiweddar iawn! Yn oes Harri'r Wythfed, aeth esgobion Tyddewi ati i ddinistrio pob hen ddogfen 'Babyddol', ac edwino fu hanes unrhyw barch i'r seintiau. O'r ddeunawfed ganrif ymlaen, yn enwedig gan Gymry Llundain, fel arwr seciwlar y dethlid y cof am Dewi. Ac felly yr erys pethau. Yn *Caneuon Ffydd*, un cyfeiriad ato sydd: yn emyn Cynan, 'Tydi, o Dduw, a beraist / dy foliant ymhob iaith'.

Ymysg pynciau eraill, sonnir yma am 'Dewi Sant a Non yn Llydaw ac Iwerddon', 'Dewi Sant ym Myd Ffantasi' a 'Dewi'r Sant Seciwlar a'i Ŵyl', a chefais flas anarferol ar y cyfan, sy'n tystio i ddygnwch y chwilotwr hwn. Dywed Gerald yr hoffasai sôn am le Dewi yn ein llên gwerin. Deunydd cyfrol arall, gobeithio!

tt.152. Y Lolfa, 2016. £5.99.

GEIRIAU'R IESU

G. P. J.

Diolch o galon i Mrs Noreen Arthur Jones am ymateb mor hyfryd i'r detholiad byr a gafwyd yn ein rhifyn diwethaf o "Eiriau'r Iesu"a diolch i chwi am ganiatâd i gyhoeddi eich llythyr. Rwy'n siwr y gwerthfawrogir eich dewis o adnodau gan ein holl ddarllenwyr.
Rwy'n siwr yr hoffai aelodau eraill gyfrannu eu dewis hwy o adnodau i'n rhifyn nesaf.

"Mwynheais ddarllen "Geiriau'r Iesu" yn fawr iawn yn y rhifyn diwethaf o Ichthus. Heriwyd ni i ailddarllen yr Efengylau a nodi ein hoff eiriau. Cofiais am yr holl adnodau a ddysgais yn yr Ysgol Sul yn Ebeneser, Clynnog, flynyddoedd yn ôl ac am ddysgu 'Llafur Cof' ar gyfer y Gymanfa, ac adnod newydd ar gyfer y Seiat bob nos Fawrth. A daeth yr Arholiad Ysgrifenedig a'r Arholiad Sirol yn fyw i'r cof. Daliaf i gofio'r cyfoeth adnodau hyd heddiw a bu nifer ohonynt yn gymorth i mi mewn cyfnodau anodd iawn. Dyma, yn syml iawn, rai o'm hoff "Eiriau'r Iesu", geiriau cysurlon, llawn sicrwydd sydd yn help i wynebu beth bynnag ddaw i'n rhan."

Myfi yw goleuni'r byd. Ni bydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y

tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd.

IOAN 8. 12

Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

IOAN 11. 25

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthych fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi. Fe wyddoch y ffordd i'r lle'r wyf fi'n mynd.

IOAN 14. 1 – 4

Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau. Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn.

MATHEW 11. 28 – 30

Ni adawaf chwi yn amddifad; fe ddof yn ôl atoch chwi. Ymhen ychydig amser, ni bydd y byd yn fy ngweld i ddim mwy, ond byddwch chwi'n fy ngweld, fy mod yn fyw; a byw fyddwch chwithau hefyd.

IOAN 14. 18 – 19

Ac yn awr yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.

MATHEW 28. 20

Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi ichwi fy nhangnefedd i fy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi yn rhoi i chwi. Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon, a pheidiwch ag ofni.

IOAN 14. 27

'IACHÂD - GOBAITH AR WAITH'

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Cynhaliwyd Cymanfa Gyffredinol Y Cyngor Cenhadol Byd Eang ar Ynys Jeju, yn Ne Korea ym mis Mehefin (17- 24 Meh. 2016). Perthyn i CWM 32 o eglwysi a chynhelir cymanfa bob pedair blynedd i gyfeirio ac adolygu gwaith y mudiad. Trwy CWM, er enghraifft, y mae yna 5 o weithwyr cenhadol o dramor yn gwasanaethu'r Cyfundeb yn ne Cymru. Thema'r gymanfa eleni oedd 'Iachâd - gobaith ar waith', ac o gofio'r thema yr oedd hi'n arwyddocaol iawn mai ar ynys Jeju yr oeddem yn cyfarfod. Mae Korea yn wlad ranedig, gyda ffin ddiadlam rhwng y Gogledd a'r De. Canlyniad ymgiprys gwleidyddol rhwng America a Rwsia yn nyddiau'r Rhyfel Oer yw'r rhaniad hwn, ac mae i'r penrhyn sy'n ffurfio Gogledd a De

Korea hanes cythryblus a dirdynnol.

Daeth hynny yn amlwg iawn yn ystod ein diwrnod cyntaf ar ynys Jeju, pryd y trefnwyd taith i rai lleoedd oedd yn adlewyrchu hanes y wlad a chyd-destun yr Eglwys yno. Y lle mwyaf trawiadol oedd Parc Heddwch 3 Ebrill, sefydlwyd i goffau lladdfa a gychwynnodd ar Ynys Jeju ar 3 Ebrill 1948, ac a barhaodd hyd 1954. Lladdwyd yno ddeg mil ar hugain o ŵyr a gwragedd a phlant, yn bennaf gan luoedd De Korea, gan y credid fod yr ynys wedi dod yn nythfa i gefnogwyr y Gogledd Comiwnyddol a oedd newydd ei sefydlu.

Y Parchg Nan Powell-Davies a'i mab Robin (a oedd yn cynrychioli'r ieuenctid), y Parchg John Colney o'r India sy'n gweithio fel galluogwr cenhadol yng Nglyn Ebwy, y Parchg Aneurin Owen, Llansannan, a'r Parchg Elwyn Richards

Am ddegawdau gwaharddwyd unrhyw drafodaeth gyhoeddus o'r gyflafan, a chai'r rhai a feiddiai grybwyll y peth eu carcharu a'u poenydio, a'u hesgymuno gan eu cymunedau fel Comiwnyddion. Ond yn y nawdegau'r ugeinfed ganrif, pan ddaeth De Korea yn wlad ddemocrataidd, mynnodd trigolion Jeju fod y gyflafan yn cael ei chydnabod, ac yn 2000 pasiwyd deddfwriaeth arbennig i alluogi datgelu'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod o saith mlynedd o derfysg. Yn ddiweddarach bu i brif weinidog De Korea, Roh Moo Hyun, ymddiheuro i drigolion Jeju am ran y llywodraeth yn yr hyn a ddigwyddodd.

Yn y parc heddwch ceir canolfan helaeth ac arddangosfa drawiadol yn coffau amgylchiadau'r gyflafan, a'r erchyllterau niferus a gyflawnwyd yn ystod y gwrthdaro. Un o'r gwrthrychau mwyaf arwyddocaol geir yno yw maen coffa mawr, heb arysgrif nac enw arno, yn arwyddocau yr anhawster a gafwyd i gydnabod yr hyn a ddigwyddodd ac enwi hynny.

Yn ystod y gymanfa hefyd dangoswyd ffilm am y modd y cam-driniwyd merched Korea gan filwyr Siapan yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cawsant eu cipio o'u cartrefi a'u carcharu a'u cam-drin. Am 90 mlynedd cadwyd hyn oll yn gyfrinach, hyd 1991 pryd y mynnodd un wraig ddewr ddatgelu'r gwir am hanes erchyll 'merched cysur' y lluoedd Siapaneaidd.

Y mae bygythiad rhyfel rhwng De a Gogledd Korea yn un cyson, ac yn ystod y gymanfa bu'r gogledd yn arbrofi â thaflegrau rhyfel. Mae'r ffin o hyd yn rhannu teuluoedd, O gofio hynny yr oedd geiriau un o ddarlithwyr y gymanfa, Dr Mitri Raheb, gweinidog Eglwys Efengylaidd y Nadolig ym Methlehem, ac un sydd ei hun yn byw mewn cymuned a rannwyd, yn hynod o drawiadol; 'dychymyg' meddai 'yw'r hyn a welwn, gobaith yw'r hyn a wnawn'.yn arwyddocau yr anhawster a gafwyd i gydnabod yr hyn a ddigwyddodd ac enwi hynny.

GŴYL PEN TYMOR

MENNA BAINES

Mae'r Ŵyl Pen Tymor, sy'n cloi blwyddyn yr ysgol Sul, wedi dod yn draddodiad blynyddol yn Berea Newydd bellach, gyda phlant yr ysgol Sul a rhai o'u rhieni'n cymryd rhan.

Eleni, thema'r gwasanaeth oedd chwaraeon: clywsom am lwyddiant ein tîm pêl-droed cenedlaethol yn Ewro2016 (roedd hyn ddwy noson ar ôl buddugoliaeth Cymru yn erbyn Gwlad Belg a sicrhaodd le iddynt yn y rownd gynderfynol), am un o uchafbwyntiau mawr Wimbledon eleni, ac am redeg gwahanol fathau o ras. Dangoswyd fel y mae rhai o'r gwerthoedd sy'n bwysig ym myd chwaraeon a champau yn ganolog hefyd i'r ffydd Gristnogol. Gyda chymaint o gampau bellach yn rhai rhyngwladol a thrawsffiniol, fe'n hatgoffwyd fod angen i ninnau yn yr un modd sicrhau undod yn ein byd a pheidio â gadael i ffiniau rhwng gwledydd rwystro'r ymdrechion i greu un byd heddychlon lle mae parch i bawb ni waeth beth fo eu hiaith, eu credo na lliw eu croen. Rhan o hynny yw bod yn barod i helpu ac ymgeleddu ffoaduriaid, a chynigiwyd gweddi o eiriolaeth drostynt.

Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran ac i'n gweinidog am arwain y gwasanaeth.

Pob hwyl i bawb dros y gwyliau haf, a bydd yr Ysgol Sul yn ailagor ar 11 Medi.

CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym yn casglu tuag at y Samariaid.

BYD MARY JONES

GWENNO PRITCHARD

Dydd Mercher, Mehefin 22ain, fe aeth y Chwiorydd a rhai aelodau eraill o'r eglwys i Lanycil, ger y Bala, i ymweld â chanolfan Byd Mary Jones, a agorwyd ar y 5ed o Hydref, 2014.

Ganed Mary Jones Rhagfyr 16eg 1784, yn Llanfihangely Pennant, ger Abergynolwyn, wrth droed Cader Idris. Roedd Mary Jones yn hanu o deulu tlawd, yn ferch i Jacob a Mary Jones, gyda'i thad yn wehydd. Roedd ei theulu yn bobl grefyddol iawn, ac yn ddilynwyr y Methodistiaid Calfinaidd. Dysgodd Mary Jones ddarllen yn yr ysgolion teithiol a drefnid gan Gruffudd Jones, ac yr oedd yn awyddus iawn i gael Beibl iddi ei hun.

Bu Mary Jones yn cynilo am chwe blynedd i gael Beibl, ac ar ôl hel digon o arian, dechreuodd ar ei thaith i'r Bala yn 1800, pan oedd yn bymtheg oed. Roedd y siwrnai o 26 milltir yn un anodd, ac anial, dros fryniau Sir Feirionnydd, ond y Bala oedd y lle agosaf y byddai Beibl ar gael. Yn ôl y stori, yr oedd Thomas Charles wedi gwerthu'r beiblau oedd ganddo i eraill, ond pan welodd mor siomedig oedd Mary Jones, fe roddodd lety iddi, i aros nes y câi fwy o feiblau, ac yna fe werthodd dri am bris un iddi. Yr oedd yr ymweliad yma gan Mary Jones wedi gwneud cymaint o argraff ar Thomas Charles, fel y bu'n symbyliad iddo sefydlu Cymdeithas y Beibl yn 1804. Yn ddiweddarach priodod Mary Jones a gwehydd o'r enw Thomas Lewis, gan symud i fyw i Fryncrug, ym Meirionnydd.

Canolfan Byd Mary Jones

Roedd y beiblau a dderbyniodd Mary Jones yn rhai o'r 10,000 a argraffwyd yn 1799, yn Rhydychen. Mae un o'r beiblau a dderbyniodd yn cael ei

arddangos yn Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt, ond cafodd ei arddangos yn y Ganolfan ym Mawrth, 2016. Mae beibl arall yn cael ei arddangos yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae Cymdeithas y Beibl yn dal i argraffu beiblau yn y Gymraeg, a'r Saesneg.

Bu farw Mary Jones ar Ragfyr 29ain, 1864, ym Mryncrug, yn 80 oed. Mae cofeb i Mary Jones ger ei chartref yn Llanfihangel-y-Pennant.



Hamddena y tu allan i'r Eglwys

Y DANBAID FENDIGAID ANN

EIRIAN HOWELLS

Daeth y gantores Siân Meinir atom i Ferea ganol Gorffennaf i gyflwyno ei dehongliad theatrig a cherddorol o emynau a llythyrau Ann Griffiths. Dyma argraffiadau un a oedd yno.

Do, fe welsoch y pennawd yna ar erthygl yn *Ichthus* o'r blaen – gan y Parch. Eric Jones yn rhifyn Ionawr eleni.

Nid af ddim i ailadrodd yr wybodaeth arbennig a gawsom yno – ewch yn ôl i'w hail-ddarllen. Ond diolch bod y Dr. Elin Walker Jones wedi ymateb i'r cwestiwn ar ddiwedd yr erthygl a 'gwahodd Siân atom ninnau i Fangor'. Gwelsoch hefyd lythyr gan y Parch. John Owen, Rhuthun (oedd yn pregethu efo ni'n ddiweddar) yn y *Goleuad* ym mis Mai yn canmol y cyflwyniad.

Cyflwynodd Menna Baines y gantores a bu saib ddisgwylgar cyn iddi ddod i mewn i'r capel. Meddyliais am 'Fy Hen Lyfr Cownt' Rhiannon Davies Jones pan ddarllenodd Siân o lyfr bach du ar ddechrau'r orig a thynnu pob aelod o'r gynulleidfa i naws hynod y noson.

Siân Meinir fel Ann Griffiths

'Does dim geiriau i fynegi'r profiad o fod yno – fel y dywedodd rhywun wrthyf ar y terfyn – mae angen ei weld eto i'w lawn sylweddoli. Meddai un arall – "'roedd yn brofiad dirdynnol i ni aelodau'r gynulleidfa yn ogystal ag i Siân ei hun."

Daeth adleisiau o eirfa ein gorffennol – o'r Rhodd Mam, o Feibl William Morgan – Caniad Solomon, y Salmau a'r Testament Newydd. Gwyddem eiriau rhai o'r emynau, ond 'roedd eraill yn hollol ddieithr i mi, beth bynnag – fe'u dewiswyd yn ofalus a'u canu mor feddylgar – gan bendilio o hwyl ac asbri Ann i ddyfnderoedd tywyll. Roedd y gwead rhwng y llefaru a'r canu yn gain ryfeddol a phob manylyn bach wedi cael sylw fel bod y cyfan yn llifo'n rhwydd. Defnyddiodd Siân bob ystum corff ac amrywiaeth sain yn y canu a'r llefaru yn feistrolgar ac i bwrpas. Trwy'r perfformiad defnyddiwyd seibiau yn effeithiol, cafwyd ebychiadau ac ochneidiau i gyfleu artaith meddyliau Ann, ac emyn fel dawns fywiog mewn cyferbyniad. Datgelwyd 'cudd feddyliau calon' Ann yn y pytiau o'i llythyrau. Caed cynhesrwydd annwyl arbennig yn y cyflwyniad o lythyr at ei chyfeilles, Elizabeth Evans.

Cantores opera ydi Siân, ond yma caed awyrgylch gyfriniol cerddoriaeth siambr yn gynnil, gynnil ar brydiau a'n dwyn ninnau i mewn i'r ystafell ddirgel a'i chyfrinachau. Perl o berfformiad nad anghofir yn hir iawn. Braint i ni uwchben paned wedyn oedd clywed Siân yn ateb ein cwestiynau a dweud sut y bu i'r cyflwyniad ddod at ei gilydd.

Siân Meinir ar ddiwedd y perfformiad gyda Menna Baines, cyflwynydd y noson, ac Elin Walker Jones, y trefnydd

ENWAU LLEOL

GLENDA CARR

Tri enw o ardal Bethesda: Rachub, Sling a Dob

RACHUB

Ar un adeg, pe bai rhywun wedi gofyn imi beth oedd ystyr yr enw Rachub byddai'n rhaid imi gyfaddef f'anwybodaeth, ond efallai y byddwn wedi holi'n betrus ai enw Beiblaidd oedd yma. Mae rhyw naws Feiblaidd iddo rywsut. Troais y dydd o'r blaen at *Eiriadur* Charles (mae rhai ohonom yn dal i bori yn hwnnw!) i weld pam yr oeddwn yn arfer teimlo hynny, ac i weld a oedd yna enw tebyg yn y Beibl. Yr unig un y gallwn ei weld oedd 'Rechab, tad Jonadab a'r Rechabiaid', ac er ein bod ni Gymry yn gallu rhoi enwau digon dieithr i rai o'n capeli, tybiais fod hwn yn mynd yn rhy bell. Felly, nid enw Beiblaidd.

Yr R ar ddechrau'r enw sydd yn ein taflu oddi ar yr echel. Ystyriwch y ffurf hon: Yr Achub. Ond berf yw *achub*, meddwch. 'Dydy 'yr achub' ddim yn gwneud unrhyw synnwyr fel enw lle. Mae'n wir fod *achub* yn ferf, ond mae hefyd yn enw, er na welir mohonon aml. Mae'r gair *achub* wedi datblygu o'r Lladin *occupo*. Felly hefyd y ferf Saesneg *occupy*, a'r ystyr yw 'cymryd meddiant'. Yr un syniad a geir yn *achub* fel enw. Ers talwm, pe bai rhywun yn cyfeirio at 'yr achub', yr ystyr fyddai rhywbeth a oedd ym meddiant rhywun, ac fe'i defnyddid fel rheol am dyddyn neu ddarn o dir. Mae gan Syr Ifor Williams gyfeiriad at hen Gyfreithiau Cymru lle dywedir fod gan fab hynaf sydd yn codi adeilad ar dir ei dad 'lle ni bo tyddyn i neb nac achub cyn hynny' yr hawl i aros yno ac na allai neb ei yrru oddi yno. Gwelir yr ystyr yn glir yma: darn o dir fyddai hwnnw nad oedd arno dyddyn cyn hynny ac nad oedd ym meddiant neb arall. Y mab hynaf oedd biau 'yr achub' hwnnw wedyn. Felly, er mor anghyfarwydd ei olwg, enw Cymraeg glân gloyw yw Rachub, gyda'r ystyr o ddarn o dir a oedd ym meddiant rhywun neu'i gilydd.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

SLING

Dewisodd John Ogwen alw ei hunangofiant yn *Hogyn o Sling*. Teitl y bennod gyntaf yw 'Hogyn o Ble?' ac mae'n mynd ymlaen i esbonio mai pentref bach yw hwn sydd hanner ffordd rhwng Tregarth a Mynydd Llandygái. Hawdd y gallai ofyn 'Hogyn o Ble?' oherwydd mae'n rhaid cyfaddef fod 'Sling' yn enw rhyfedd. Fodd bynnag, nid yw'n unigryw o bell ffordd. Mae yna le o'r un enw ar gyrion Biwmares, yn Llangristiolus ac yn Llanystumdwy.

Efallai ei fod yn llawer mwy cyffredin fel enw ar gae: gwelais saith enghraifft ym mhlwyf Llanbeblig, dwy yn Llanwnda ac un yn Llandwrog. Ac mae hynnyn hollol naturiol, oherwydd yr hyn sydd gennym yma yw enw am rimyn neu lain hirgul o dir. Benthyciad uniongyrchol o'r Saesneg *sling* sydd yma. Nid benthyciad modern mohono gan fod enghraifft o'r enw Erowe Slynge [Erw Sling] yn digwydd yn Sir Drefaldwyn yn 1552. Ceir sawl enghraifft yn Lloegr o gaeau hirgul a elwir yn The Sling, neu ambell dro yn Slinge neu Slenge. Mae'r ffurf Slang hefyd yn digwydd yng Nhgymru a Lloegr gyda'r un ystyr. Cofnodwyd Erow kaer slang (hwn eto o Sir Drefaldwyn) yn 1652-3. Defnyddir y term 'slangen o dir' yng Ngheredigion.

DOB

Mae'r enw anghyffredin hwn eto yn digwydd yn ardal Bethesda. Fe'i gwelir yn enw Parc y Dob ar gyrion Tregarth. Yr hyn sydd gennym yma yw ffurf anwes neu ffurf fachigol ar yr enw personol Robert. Heddiw os ydym am dalfyrru'r enw Robert, tueddwn i ddefnyddio Bob, Rob, neu Robin. Yr oedd gan ein cyndeidiau fwy o amrywiaeth o ffurfiau anwes, ac yn eu plith oedd Dob a Dobyn, Hob a Hobyn. Peidiwch â synnu gweld y fannod y o flaen enw personol; fe'i ceir yn aml mewn enwau lleoedd. Cyfeirir ambell dro at Cae Bold, Caernarfon, fel Cae'r Bold, er mai cyfenw yw Bold yma, a cheir enghreifftiau tebyg ar hyd a lled Cymru. Felly, nid yw cael 'y Dob' mor anarferol â hynny.

Mae'r ffurf Dôl Dobyn yn digwydd ym Mallwyd; ceir Cae Hob yn Llanddeiniolen, ac mae pawb yn gyfarwydd â Pentrehobyn, Yr Wyddgrug. Efallai nad yw mor amlwg ar yr olwg gyntaf mai'r ffurfiau anwes Dob a Dobyn, neu'r ffurfiau cyfatebol Saesneg Dob a Dobbin (enw poblogaidd ar geffyl gwedd), a esgorodd ar y cyfenwau Dobbs, Dobson, Dobie a Dobbings.

SALM AC EMYN

	EMYN	SALM
Medi 11	115 Flur Edwards	84 1-4 Catrin Edwards
Medi 18	136 Rhys Roberts	84 10-12 Gwen Roberts
Medi 25	138 Bedwyr Llŷr	1 Llio Eurgain
Hydref 2	Gwasanaeth Diolchgarwch	
Hydref 9	158 Danial Jones	8 Owain Edwards
Hydref 16	159 Cai Aron	23 Ela Vaughan
Tachwedd 6	93 Siôn Steffan	24 Alys McCann
Tachwedd 13	141 Alaw Lois	33 1:5 Gwion Llywelyn
Tachwedd 20	143 Meilyr Lynch	93 Tomos Lynch
Tachwedd 27	145 Eleri Roberts	121 Trystan Rhys

Gwyliau ysgol Hydref 23 a 30

Diolch yn fawr am eich cyfraniad.

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Kathy - kathysion@btinternet.com neu 364957. Diolch.

BANGOR - 'DINAS NODDFA' I FFOADURIAID?

Mae Cytûn, dan anogaeth yr Esgob Andy, wedi penderfynu archwilio ymhellach y posibilrwydd o sefydlu Bangor fel 'Dinas Noddfa' i ffoaduriaid. Byddai'n golygu bod Bangor yn dod yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o ddinasoedd sy'n awyddus i gefnogi ffoaduriaid. **Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal i symud y mater ymlaen – cadwch lygad am fanylion pellach ganol Medi.**

CYTÛN YNG NGHARNIFAL BANGOR

ANGEN GWIRFODDOLWYR

AWST, SADWRN 6, 10.00yb-4yp. FFORDD Y TRAETH, BANGOR

A oes gennych awr neu ddwy i'w sbario ar ddydd Sadwrn, 6 Awst? Mae Carnifal Bangor yn cael ei gynnal ar Ffordd y Traeth y diwrnod hwnnw ac eto eleni bydd gan Cytûn (Eglwysi Bangor Ynghyd) babell yno. Bydd lle arbennig yn y babell i blant liwio a gwneud gwaith crefft syml. Mae'r trefnwyr yn chwilio am wifoddolwyr i helpu'r plant gyda hyn. Gorau oll os oes gennych dystysgrif gyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) neu'r corff sydd wedi'i ddisodli, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Os gallwch helpu cysylltwch ag Eleri Jones ar 01248 364665 neu eleri.jones30@btinternet.com

Bydd angen help hefyd i godi'r babell ddydd Gwener, 5 Awst (tua 6pm) ac i'w thynnu i lawr ar y dydd Sadwrn (4pm ymlaen). Os ydych ar gael anfonwch neges destun at Ian Russell ar 07775 997824 neu anfonwch e-bost ato: i.t.russell@abertawe.co.uk

Daeth nifer o bobl ynghyd i ‘Mawl ar y Pier’ ar 10 Gorffennaf

Trefnwyd y digwyddiad gan Gytûn Bangor.